**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Abigail Harris
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Alex Howells
Prif Weithredwr, AaGIC

13 Tachwedd 2025

Annwyl Ms Harris, Ms Howells

Diolch am eich ateb dyddiedig 3 Tachwedd 2025 ynglŷn â swyddi gwag ar gyfer carfan Mawrth 2023 o fyfyrwyr Nyrsio Oedolion.

Trafododd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd a chytunodd y dylwn ysgrifennu yn ôl atoch gyda nifer o bwyntiau pellach, sydd wedi'u nodi isod.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i’r cwestiynau isod:

1. Yn eich ymateb, rydych yn cadarnhau y bydd 65 o raddedigion o Brifysgol Abertawe ar gyfer y maes nyrsio oedolion ac nad oes swyddi ar gael ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Pam mae cymaint o anghysondeb rhwng nifer y lleoedd hyfforddi ym maes nyrsio oedolion a gynigir ar gyfer carfan Mawrth 2023, a nifer y swyddi gwag?
2. Beth yw'r rhesymau nad oes unrhyw swyddi wedi dod ar gael yn y maes hwn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn ystod y broses symleiddio ddiweddar? A yw pwysau cyllidebol neu rewi recriwtio wedi bod yn ffactor?
3. Pam mae'r wybodaeth hon wedi dod i'r amlwg mor hwyr, fel mai dim ond yn ddiweddar y cafodd myfyrwyr wybod amdani? Pryd y daethoch yn ymwybodol na fyddai unrhyw swyddi ar gael ar gyfer y garfan hon?
4. Pa gamau yr ydych wedi’u cymryd ers dod yn ymwybodol na fyddai unrhyw swyddi ar gael?
5. Beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â charfan nyrsio oedolion Mawrth 2023 – a ydych nawr, neu a ydych yn gobeithio bod, mewn sefyllfa i gynnig unrhyw swyddi nyrsio oedolion i'r garfan hon?
6. Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer y garfan nyrsio oedolion nesaf sy’n graddio yn 2026 – a ydych yn disgwyl iddynt fod mewn sefyllfa debyg o ran swyddi gwag ym maes nyrsio oedolion?

7. O ystyried yr anghysondeb rhwng lleoedd hyfforddi a swyddi sydd ar gael ar gyfer carfan Mawrth 2023, pa gamau yr ydych yn eu cymryd mewn perthynas â chynllunio ar gyfer lleoedd hyfforddi yn y dyfodol?
8. I AaGIC: yn eich ateb, rydych yn nodi bod effaith gadarnhaol mwy o addysg a hyfforddiant, y rhaglen gadw genedlaethol a recriwtio rhyngwladol o bosibl yn cael effaith ar argaeledd swyddi gwag i raddedigion mewn rhai meysydd a phroffesiynau. Rydych yn dweud bod angen gwaith cydweithredol cryf rhwng sefydliadau'r GIG a'ch bod yn chwarae rôl allweddol wrth ddod â phartneriaid at ei gilydd. A allwch roi rhagor o wybodaeth am yr ardaloedd a'r swyddi sy'n cael eu heffeithio gan hyn, a'r camau sy'n cael eu cymryd? A allwch hefyd roi manylion am y sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y myfyrwyr sy'n graddio fesul maes a'r swyddi gwag sydd ar gael ym mhob bwrdd iechyd ar gyfer pob maes nyrsio, ffisiotherapi a gweithwyr iechyd proffesiynol perthynol eraill?
9. I AaGIC: Yn gysylltiedig â'r uchod, rydym wedi bod yn clywed yn anecdotaidd am ddiffyg swyddi ar gyfer myfyrwyr meddygol a meddygon sy'n cwblhau eu hyfforddiant sylfaen ac sy’n chwilio am hyfforddiant arbenigol. A ydych yn ymwybodol o hyn, a pha gamau sy'n cael eu cymryd mewn perthynas â’r mater?

Mae copi o’r llythyr hwn yn cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a Chyfarwyddwr Gweithredol Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb buan.

Yn gywir



Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.